# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 24 February 2025 at 6.30 pm
## Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), Sara Keeton, Helen Nelson and Rebecca Fogarty

**Co-opted Members Present**: Eddie Hall

**Officers Present:** Robert Hernando – Environmental Officer and Ian Hughes – CSO

**EN2502-01** **Apologies:** None

**EN2502-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2502-03** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 27th January 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 27th January 2025 as a true record.

**EN502-04** **Actions arising from Previous Meetings**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

Eddie Hall arrived at 6.35pm

Signed by Chair

**EN2502-05** **Budget Monitoring Reports to 31/01/2025 - Paul Beynon, RFO**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

No queries were raised with RFO or CSO prior to the meeting.

A discussion took place on how best to spend budgets prior to the end of the financial year; including Norton Nature Reserve and The Grass Verge Scheme

**ACTION:** Cllr Nelson to meet with Rob Hernando to discuss potential sites for Grass Verge Schene in Mayals.

**RESOLVED:** to approve the budget monitoring report to 31st January 2025.

Cllr Helen Nelson joined the meeting at 6.43pm

**EN2502-06** **MCC Website – SA1 and Social Media**

Robert Hernando outlined the benefits of a 'stand-alone' MCC Website for environmental issues as opposed to incorporating environmental issues within the existing MCC Website.

A lengthy discussion ensued in which all committee members provided views on the merits of both options. It was noted that MCC is in the process of renewing the relevant IT contractor and any decision to create a new stand-alone website should be delayed until further information is known. The general consensus of the committee was that further discussion is necessary before a decision to create a separate website is made.

**RESOLVED**: For all committee members to give serious consideration to the need for a separate stand-alone Environmental Website prior to March's Meeting. `In addition £5,000 remains in the relevant budget for environmental issues to be progressed through a website and this money is to be ring fenced pending a decision being made on whether a stand-alone website should be implemented.

**EN2502-07** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**

Summary of previous months activity and next steps for February. Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had previously provided his monthly report to committee members. He outlined key aspects of the report including the Mumbles Crop Collective, volunteering days, and Mumbles Gardeners Question Time.

**RESOLVED**: For Robert Hernando to widen the circulation of upcoming events to include local primary schools.



Draft

**EN2502-08** **Bee Friendly Streets Scheme**

Cllr Phil Keeton updated the committee that preparation for the Bee Friendly Streets Scheme was ongoing and that a further update will be provided at the March Committee Meeting.

**ACTION:** Robert Hernando to discuss the option of including the Bee Friendly Streets Scheme as an item within the forthcoming MCC Newsletter. To be discussed with Claire Anderson.

**EN2502-09** **Climate Emergency Action (Water Quality Testing Project)**

Robert Hernando outlined The Water Blitz Initiative, a UK wide project that provides water-testing kits for testing to be carried out during the period between the 25th and 28th April 2025. This monitoring project coincides with a SCC initiative.

During the discussion that followed, committee members were supportive of enrolling on the Water Blitz project with potential testing sites being considered including Blackpill and Clyne Valley.

**RESOLVED:** Robert Hernando to apply for registration to The Water Blitz Project on 4th March 2025

**EN2502-10** **Litter Free Zones and Monthly Litter Pick Dates**

Robert Hernando outlined that litter picks events have been delayed to avoid the half-term holiday and allow for the lighter evenings during BST.

Discussion took place in relation to potential sites for litter picks involving school children and utilising other organisations apart from schools such as Newton Rangers Football Club.

**EN2502-11** **Mumbles Buzz and Bloom**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined how key aspects including registration dates and categories will need to be decided prior to the launch of Mumbles Buzz and Bloom at Mumbles Gardeners Question Time on 28th March 2024

**ACTION:** Robert Hernando to e-mail Cllrs Townsend Jones, Nelson and other interested parties to agree key aspects of Mumbles Buzz and Bloom prior to its launch at Mumbles Gardeners Question Time.

**EN2502-12** **Mumbles Skatepark Update**

This item was deferred until the March Meeting.

**EN2502-13** **Engaging with Young People**

This item was deferred until the March Meeting

**EN2502-14** **Mumbles Green Heroes**

A discussion took place in relation to holding future events before the end of March 2024 such as a further recycling visit.

**ACTION:** Robert Hernando to propose a suitable visit prior to the end of March 2025.

**EN2502-15** **Takeaway packaging and 'plastic free'.**

Deferred to March Meeting

**EN2502-15** **Mumbles Gardeners Question Time**

Discussed within Robert Hernando's Environmental Report at **EN2502-07.**

**Meeting ended at 8.20pm.**

**Next Meeting 31 March 2025**

Draft

Signed by Chair

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2025 am 6.30 pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-Gadeirydd), Sara Keeton, Helen Nelson a Rebecca Fogarty

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Robert Hernando – Swyddog Amgylcheddol ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2502-01** **Ymddiheuriadau:** Dim

**EN2502-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2502-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2025 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2025 fel rhai cywir.

**EN502-04** **Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

Cyrhaeddodd Eddie Hall am 6.35pm



Draft

**EN2502-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Cymorth Ariannol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o wario cyllidebau cyn diwedd y flwyddyn ariannol; gan gynnwys Gwarchodfa Natur Norton a chynllun Y Llain Las

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Nelson i gwrdd â Rob Hernando i drafod safleoedd posibl ar gyfer Y Llain Las ym Mayals.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025.

Ymunodd y Cynghorydd Helen Nelson â'r cyfarfod am 6.43pm

**EN2502-06**

**Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls – SA1 a'r cyfryngau cymdeithasol**
Amlinellodd Robert Hernando fanteision gwefan 'annibynnol' Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer materion amgylcheddol yn hytrach nag ymgorffori materion amgylcheddol yng ngwefan bresennol Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Cafwyd trafodaeth faith lle rhoddodd holl aelodau'r pwyllgor farn ar rinweddau'r ddau opsiwn. Nodwyd bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn y broses o adnewyddu'r contractwr TG perthnasol ac y dylid gohirio unrhyw benderfyniad i greu gwefan annibynnol newydd hyd nes y bydd gwybodaeth bellach yn hysbys. Consensws cyffredinol y pwyllgor oedd bod angen trafodaeth bellach cyn y gwneir penderfyniad i greu gwefan ar wahân.

**PENDERFYNWYD:** Y dylai holl aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth ddifrifol i'r angen am wefan amgylcheddol ar wahân cyn cyfarfod mis Mawrth. Yn ogystal, mae £5,000 yn parhau yn y gyllideb berthnasol ar gyfer materion amgylcheddol ar wefan, a bydd yr arian hwn wedi'i glustnodi hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu gwefan annibynnol.

**EN2502-07** **Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Chwefror. Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi darparu ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Amlinellodd agweddau allweddol ar yr adroddiad gan gynnwys Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls, diwrnodau gwirfoddoli, a Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD:** Y dylai Robert Hernando ehangu cylchrediad y digwyddiadau sydd i ddod i gynnwys ysgolion cynradd lleol.

**EN2502-08** **Cynllun Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn**

Rhoddodd y Cynghorydd Phil Keeton yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor fod y gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Strydoedd sy'n Denu Gwenyn yn parhau ac y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i drafod yr opsiwn o gynnwys cynllun Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn fel eitem yng nghylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls sydd ar ddod. I'w drafod gyda Claire Anderson.

**EN2502-09** **Gweithredu Argyfwng Hinsawdd (Prosiect Profi Ansawdd Dŵr)** Amlinellodd Robert Hernando fenter WaterBlitz, prosiect ledled y DU sy'n darparu pecynnau profi dŵr i'w defnyddio yn ystod y cyfnod rhwng 25 a 28 Ebrill 2025. Mae'r prosiect monitro hwn yn cyd-fynd â menter Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, roedd aelodau'r pwyllgor yn gefnogol i gofrestru ar y prosiect WaterBlitz ac ystyriwyd safleoedd profi posibl gan gynnwys Blackpill a Dyffryn Clun.

**PENDERFYNWYD:** Bod Robert Hernando yn gwneud cais i gofrestru ar y prosiect WaterBlitz ar 4 Mawrth 2025

**EN2502-10** **Parthau di-sbwriel a dyddiadau casglu sbwriel misol**

Amlinellodd Robert Hernando fod digwyddiadau codi sbwriel wedi cael eu gohirio er mwyn osgoi gwyliau hanner tymor a chaniatáu ar gyfer nosweithiau goleuach yn ystod oriau'r haf.

Cafwyd trafodaeth am safleoedd posibl ar gyfer sesiynau codi sbwriel yn cynnwys plant ysgol a defnyddio sefydliadau eraill ar wahân i ysgolion megis Clwb Pêl-droed Newton Rangers.

**EN2502-11** **Su'r Mwmbwls yn ei Blodau**

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones sut y bydd angen penderfynu ar agweddau allweddol gan gynnwys dyddiadau cofrestru a chategorïau cyn lansio Su'r Mwmbwls yn ei Blodau yn Sesiwn Holi Garddwyr y Mwmbwls ar 28 Mawrth 2024

Signed by Chair

Draft

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i anfon e-bost at y cynghorwyr Townsend Jones, Nelson a phartïon eraill â diddordeb i gytuno ar agweddau allweddol o Su'r Mwmbwls yn ei Blodau cyn ei lansio yn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls.

**EN2502-12** **Diweddariad ar Barc Sglefrio'r Mwmbwls**

Gohiriwyd yr eitem hon nes cyfarfod mis Mawrth.

**EN2502-13** **Ymgysylltu â phobl ifanc**

Gohiriwyd yr eitem hon nes cyfarfod mis Mawrth

**EN2502-14** **Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls** Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chynnal digwyddiadau yn y dyfodol cyn diwedd mis Mawrth 2025 megis ymweliad ailgylchu pellach.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i gynnig ymweliad addas cyn diwedd mis Mawrth 2025.

**EN2502-15** **Pecynnu cludfwyd a phecynnu 'di-blastig'.**

Gohiriwyd nes cyfarfod mis Mawrth

**EN2502-15** **Sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls**

Wedi'i drafod yn Adroddiad Amgylcheddol Robert Hernando yn **EN2502-07.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm.**

**Cyfarfod nesaf 31 Mawrth 2025**

Signed by Chair